

Eich cyf / Your ref: Gofynner am / Please ask for: **Kelvin Barlow**  
Fy nghyf / My ref: KB Llinell Uniongyrchol / Direct Line: **01267 246533**  
Dyddiad / Date: **15.04.19** E-bost Uniongyrchol / Direct E-mail:

Annwyl bawb,

### Pontio i Fywyd fel Oedolyn ar gyfer Pobl Ifanc Anabl a'u Teuluoedd

Mae'r cyfnod pontio rhwng bod yn blentyn a bod yn oedolyn yn gallu bod yn gyfnod anodd i bobl ifanc a'u teuluoedd. Gwyddom y gall hwn fod yn gyfnod mwy heriol byth ar gyfer pobl ifanc sy'n anabl neu'r rheiny sydd ag awtistiaeth.

Cynhaliodd Cyngor Sir Caerfyrddin, ar y cyd â Mencap Cymru a Phobl yn Gyntaf Sir Gaerfyrddin nifer o 'Ddigwyddiadau Gwrando' gyda phobl ifanc a rhieni ym mis Tachwedd 2018 er mwyn deall beth sy'n bwysig a'r ffordd orau inni gefnogi pobl ifanc yn ystod y cyfnod hwn.

Y negeseuon allweddol a ddeilliodd o'r digwyddiadau hyn oedd:

- Bod angen cynllunio ar gyfer pontio ddigwydd yn ddigon cynnar
- Datblygu ymddiriedaeth yng ngwasanaethau drwy gael cyswllt wyneb yn wyneb yn gyson gyda rheolwyr
- Sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei diweddarau ac yn hawdd ei deall
- Sicrhau bod y gefnogaeth gan ein timau yn gyson

Roeddem wedi cynnal digwyddiad arall ym mis Ionawr 2019 i rannu ein canfyddiadau. Bellach rydym eisiau sefydlu grŵp rheolaidd gyda rhieni a phobl ifanc er mwyn gweithio gyda'n gilydd i fynd i'r afael â'r materion hyn. Hoffem gael cynrychiolaeth ledled y sir os yw'n bosibl sy'n cynnwys Pobl Ifanc a Rhieni/Gofalwyr.

Bydd ein cyfarfod cyntaf yn cael ei gynnal **ddydd Gwener 3 Mai, 10:00am yng Nghanolfan Coleshill, Teras Coleshill, Llanelli, SA15 3BT**

Os hoffech ddod i'r cyfarfod neu os hoffech gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

Wayne Armishaw - Rheolwr Prosiect, Mencap Cymru Sir Gaerfyrddin.

[wayne.armishaw@mencap.org.uk](mailto:wayne.armishaw@mencap.org.uk)


07532405979

Rydym yn llawn cyffro am y cyfle i weithio mewn partneriaeth gyda theuluoedd yn y ffordd hon a'n gobaith yw y bydd yn caniatáu i ni gyflawni'r gwelliannau yr hoffem eu gweld.

Yn gywir

GA

**iANS B Ed. M. Sc**

  
Kelvin Barlow  
Cyfae Kelvin Barlow a Gwasanaethau Plant  
Adran Addysg a Phlant, Adeilad 2, Parc Dewi Sant,  
Heol Ffynnon Job, Caerfyrddin, Sir Gaerfyrddin. SA31 3HB  
Director of Education and Children's Services  
Department for Education and Children,  
Building 2, St. David's Park, Jobs Well Road,  
Carmarthen, Carmarthenshire. SA31 3HB

*Mae Cyngor Sir Caerfyrddin yn croesawu  
gohebiaeth yn Gymraeg neu yn Saesneg  
Carmarthenshire County Council welcomes  
correspondence in Welsh or English*



**BUDDSODDWYR | INVESTORS  
MEWN POBL | IN PEOPLE**

Rheolwr y Gwasanaeth, Anghenion Cymhleth a Phontio